**Y Pwyllgor Cyllid**
—
**Finance Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCyllid@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCyllid
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddFinance@senedd.wales
senedd.wales/SeneddFinance
0300 200 6565

Y Gwir Anrhydeddus Elin Jones AS, y Llywydd
Cadeirydd Comisiwn y Senedd
Adrian Crompton
Archwilydd Cyffredinol Cymru
Michelle Morris
Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
Vijay Rangarajan
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu, Y Comisiwn Etholiadol

24 Hydref 2025

Annwyl Elin, Adrian, Michelle a Vijay,

Adolygiad o Weithdrefnau Cyllideb Atodol a Phrotocol Proses y Gyllideb

Yn ystod y Senedd hon, mae'r Pwyllgor wedi ysgrifennu atoch ar sawl achlysur yn gofyn am eich barn ar newidiadau arfaethedig i Brotocol Proses y Gyllideb a gweithdrefnau cyllidebol atodol fel y maent yn ymwneud â Chyrff a Ariennir yn Uniongyrchol.

Fe ysgrifennais at Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg ar 1 Gorffennaf 2025 yn crynhoi'r pwyntiau a godwyd gennych chi, a Chyrff eraill a Ariennir yn Uniongyrchol, yn gofyn am farn ar y newidiadau arfaethedig, gan gynnwys a fyddai'n gefnogol i'w gwneud yn y Senedd hon, cyn y diddymiad y flwyddyn nesaf.

Ymatebodd Ysgrifennydd y Cabinet ar 22 Gorffennaf 2025, yn nodi cefnogaeth gyffredinol i'r cynigion ac iddynt gael eu mabwysiadu fel un pecyn cyfunol o newidiadau, ond gan ddod i'r casgliad:

> *"Nid wyf yn gweld unrhyw reswm i beidio â pharhau â threfniadau anffurfiol o'r fath ar gyfer gweddill tymor y Senedd, yn enwedig oherwydd gall yr hyblygrwydd hwn fod yn ddefnyddiol wrth i ni agosáu at etholiad nesaf y Senedd."*

Mewn perthynas â'r newidiadau a gynigiwyd, gan y Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol, i'r gweithdrefnau cyllideb atodol, cadarnhaodd yr Ysgrifennydd Cabinet hefyd:

> *"Er y gallwn weld gwerth mewn ffurfioli elfennau o'r cynigion, nid wyf yn credu ei bod yn hanfodol gwneud unrhyw un o'r newidiadau cyn i'r pecyn mwy cynhwysfawr o newidiadau gael ei ystyried gan y Senedd newydd."*

Fel Pwyllgor rydym yn cydnabod y dylai'r newidiadau arfaethedig gael eu hystyried gan y Senedd fel un pecyn. Rydym hefyd yn deall bod y rhain yn faterion y bydd y Senedd nesaf am eu hystyried yn fanwl.

Serch hynny, mae'n siomedig nad yw'r Ysgrifennydd Cabinet wedi ymgysylltu'n ystyrlon â'r Pwyllgor neu'r Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol ar y materion hyn neu wedi darparu barn glir mewn ymateb i'r cynigion penodol rydych wedi'u cyflwyno. Er bod hyn yn rhwystredig, caiff y materion hyn eu hadlewyrchu yn ein Hadroddiad Gwaddol, a byddaf yn parhau i bwyso ar yr Ysgrifennydd Cabinet ar y pwyntiau hyn mewn sesiynau craffu yn y dyfodol, fel na chaiff eich ymdrechion i godi'r materion hyn eu colli, ac er mwyn sicrhau eu bod yn llywio datblygiadau gweithdrefnau cyllidebol yn y Seithfed Senedd.

Er gwaethaf y canlyniad hwn, rwy'n ddiolchgar am eich ymgysylltiad parhaus ac mae eich trafodaethau wedi bod yn amhrisiadwy wrth helpu'r Pwyllgor i gael gwell dealltwriaeth o'r pwysau a achosir gan weithdrefnau cyllidebol y Senedd a'r ffyrdd y gellir eu gwella.

Rwyf yn anfon copi o'r llythyr hwn at Bwyllgor y Llywydd, o ystyried bod y mater hwn yn dod o fewn eu cylch gorchwyl hwy hefyd.

Yn gywir,

Peredur Owen Griffiths AS, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg. | We welcome correspondence in Welsh or English.